**<u>Ydych chi eisiau ein cynorthwyo ni i ddarparu hyfforddiant ar Gyd-Gynhyrchu?</u>**

Byddwch angen sefydlu gweithgor yn cynnwys unigolion, aelodau teulu, cynrychiolwyr y trydydd sector, darparwyr a gweithwyr proffesiynol er mwyn cynnwys cynulleidfa gytbwys a phartneriaeth gynhwysol.

Nod y gweithgor hwn yw casglu manyleb/cynnwys ar gyfer yr hyfforddiant cyd-gynhyrchu er mwyn sicrhau bod anghenion yr holl fudd-ddeiliaid yn cael eu diwallu.

Dylai'r fanyleb hyfforddi fynd i'r afael ag anghenion yr unigolion hynny gydag anableddau lluosog a dwys, grŵp sydd â diffyg cyfleoedd i rannu eu barn a chyfrannu'n wirioneddol at gyd-gynhyrchu ffyrdd i fodloni eu canlyniadau.

Unwaith y datblygir y cynnwys drwy'r gweithgor, bydd angen darparu dau gwrs hyfforddi ar-lein, yn ddelfrydol dylai o leiaf un gael ei ddarparu yn y Gymraeg (os yw'n bosibl).

Nod yr hyfforddiant yw amlinellu egwyddorion cyd-gynhyrchu, mynd i'r afael â rhwystrau, rhoi cipolwg i holl bartneriaid o heriau eraill, a darparu adnoddau a fydd yn cynorthwyo'r siwrnai cyd-gynhyrchu o'r syniad dechreuol, i'r cyswllt gyda gweithwyr proffesiynol i'r rhai sydd â phrofiad, hyd at ddatblygu datrysiadau a ganolbwyntir ar yr unigolyn yn y gymuned.

Dylai unrhyw gynnwys a ddatblygir gael ei rannu yn ôl i'r prosiect gweddnewid ar gyfer unrhyw gyfleoedd datblygu yn y dyfodol.

Gall y prosiect gweddnewid anableddau dysgu dalu hyd at **<u>£1500</u>** ar gyfer y gwaith hwn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darparu'r darn o waith hwn, cwblhewch "ddatganiad o ddiddordeb" gan amlinellu pam bod eich sefydliad chi yn berffaith i'n cefnogi ni gyda'r darn o waith hwn.

****Darperir cefnogaeth drwy'r Prosiect Gweddnewid Anableddau Dysgu****